

Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

23 Tachwedd 2018

Ystafell y Cyngor

11.30 – 1.00

Presennol:

Rhodri Glyn Thomas (Llywydd)
Gwilym Dyfri Jones
Dyfrig Jones
Richard Houdmont

Lee Yale-Helms (Trysorydd)
Steve Williams
Iwan Davies
Yr Arglwydd Aberdâr

Liz Siberry
Susan Davies
Hugh Thomas
Eleri Twynog Davies

Tîm Gweithredol:

Linda Tomos
David Michael
Pedr ap Llwyd

Prif Weithredwr a Llyfrgellydd
Dirprwy Brif Weithredwr a Llyfrgellydd
Dirprwy Brif Weithredwr a Llyfrgellydd

Hefyd yn bresennol:

Carol Edwards
Annwen Isaac
Paul Jackson
Doug Jones
Nia Wyn Dafydd
Mary Ellis
Peter Owen

Rheolwr Llywodraethiant a Chlerc Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (Cofnodydd)
Rheolwr Adnoddau Dynol
Cyngor Partneriaeth
Cyngor Partneriaeth
Cyngor Partneriaeth
MALD
MALD

Craig Duggan

BBC

1.1 Croeso'r Llywydd a Sylwadau Agoriadol

Croesawodd y Llywydd bawb oedd yn bresennol i'r cyfarfod, gan estyn croeso arbennig i Peter Owen, Pennaeth MALD. Ymddiheurodd y Llywydd am orfod cynnal sesiwn gaeedig, ond roedd yna faterion i'w trafod y tro yma ble roedd angen cynnal sesiwn gaeedig.

1.2 Ymddiheuriadau

Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau i'w nodi.

1.3 Datgan Buddiannau

Datganodd Liz Siberry ei bod yn aelod o Gyngor Prifysgol Cymru, yn aelod o Gyngor Prifysgol y Drindod Dewi Sant ac yn Ymddiriedolwr o Ymddiriedolaeth Elusennol Gregynog.

Datganodd Susan Davies ei bod yn parhau i fod yn gysylltiedig â Phrifysgol Aberystwyth a bod ei mab yn un o'r gwirfoddolwyr yn y Llyfrgell.

Datganodd Steve Williams ei fod yn aelod o Brifysgol Abertawe.

Datganodd David Michael ei fod yn aelod annibynnol o Bwyllgor Archwilio Cronfa Treftadaeth y Loteri.

Datganodd Pedr ap Llwyd ei fod yn Gyfarwyddwr Anweithredol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Datganodd Linda Tomos ei bod wedi derbyn gwahoddiad i ymuno ag Ymddiriedolaeth yr Ysgwrn pan fydd wedi ei sefydlu, ac roedd am nodi hyn er gwybodaeth.

Datganodd Dyfrig Jones fudd o dan Eitem 1.4, Materion yn codi, ble trafodwyd PhD Prifysgol Bangor, gan nodi y byddai'n gadael yr ystafell petai unrhyw drafodaeth ar y mater.

Datganodd Richard Houdmont fudd o dan eitem 6.2, Adroddiad Brexit, ei fod yn gadeirydd Poetry Wales Press Ltd.

Datganodd Gwilym Dyfri Jones ei fod yn aelod o staff Prifysgol y Drindod Dewi Sant ac yn gyfarwyddwr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

1.4 Cymeradwyo cofnodion cyfarfod 21 Medi a thrafod materion sy'n codi

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod 21 Medi fel cofnod cywir o'r materion a drafodwyd, yn amodol ar y newidiadau canlynol;

- a) Ail eirio'r cymal o dan Eitem 2.1, Ysgoloriaethau PhD Prifysgol Bangor
- b) Cynnwys brawddeg i egluro fod Dyfrig Jones wedi ail-ymuno â'r cyfarfod ar ôl i'r ysgoloriaethau gael eu trafod.

Cynigiwyd y cofnodion gan Hugh Thomas a'u heilio gan Iwan Davies.

1.5 Pwyntiau gweithredu o gyfarfod 21 Medi.

Y cyfan wedi eu gweithredu.

Adran 2 Materion sydd angen trafodaeth neu benderfyniad

2.1 Prosiect yr Archif Ddarlledu

Yn dilyn trafodaeth yn y sesiwn gaeedig, cytunwyd ar y datganiad canlynol i'w ryddhau i'r wasg;

Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn siomedig gyda phenderfyniad y Gweinidog i beidio â chefnogi prosiect yr Archif Ddarlledu, ac felly, ar hyn o bryd, ni fedrwn gyflwyno'r cais ar gyfer cymhorthdal Cam 2 Cronfa Treftadaeth y Loteri. Golyga hyn felly bod y Llyfrgell, fel y mae ar hyn o bryd, yn colli allan ar £5m, ac mae mynediad y cyhoedd i'r casgliad pwysicaf o hanes cymdeithasol Cymru dros y 70 mlynedd diwethaf wedi ei beryglu. Mae'r Llyfrgell wrth gwrs yn barod iawn i ystyried unrhyw opsiynau arall i achub yr Archif Ddarlledu, a sicrhau mynediad y cyhoedd i'r archif genedlaethol bwysig yma.

2.2 Strategaeth Pobl a Chynllun Datblygu'r Gweithlu

Cyflwynwyd y Strategaeth a'r Cynllun gan Pedr ap Llwyd.

Mae creu Strategaeth Pobl a Chynllun Datblygu'r Gweithlu yn ymrwymiad sydd wedi ei osod allan yn ein Cynllun Strategol a'n Cynllun Gweithredu. Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ogystal am weld copi o'r Strategaeth erbyn diwedd mis Tachwedd, gan fod hwn yn un o'r argymhellion a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ei adolygiad ar lywodraethiant yn 2016. Yn dilyn cyflwyno'r Strategaeth a'r Cynllun, bydd y cyfan o'r argymhellion a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ei adroddiad *Llyfrgell Genedlaethol Cymru - Adolygiad Llywodraethu* wedi eu cwblhau.

Gwahoddwyd sylwadau gan yr Ymddiriedolwyr a'r farn gyffredinol oedd bod y Strategaeth yn rhy fanwl ac yn rhy hir, a chynigiodd Lee Yale-Helms a Liz Siberry, y ddau wedi drafftio dogfennau tebyg, eu profiad a'u harbenigedd i Pedr i ail drafftio'r ddogfen cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Bydd rhaid hefyd ystyried ffyrdd o adrodd ar gynnydd.

Pwysleisiwyd mai dyma'r drafft cyntaf cyn cael cyfnod o ymgynghori gyda staff a'r undebau ac mi fydd y cyfnod hynny yn dechrau ddydd Llun 26 Tachwedd.

2.3 Codi Incwm – diweddariad

Mae'r adroddiad yma'n cael ei gyflwyno heddiw yn dilyn cais gan Richard Houdmont yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd ym mis Medi. Mae'r adroddiad yn cynnwys tair rhan, sef incwm masnachol, rhoddion ac incwm prosiectau. Ers drafftio'r adroddiad, mae'r Llyfrgell wedi derbyn cadarnhad bod y Wellcome Trust wedi dyfarnu £66,938 iddi dros gyfnod o 12 mis i ymgymryd â phrosiect *Meddygaeth ac Iechyd yng Nghymru cyn y GIG: Casgliad Print Cymreig*.

Nodwyd bod y Diwrnod Derbynion a gynhaliwyd ym mis Medi wedi bod yn llwyddiant ac y dylid ei gynnal yn flynyddol. Mae'n gyfle i arddangos ein derbynion diweddaraf ac i ddangos gwerthfawrogiad i'n rhoddwyr a'n noddwyr, yn arbennig y rhai sy'n cyfrannu i'r Gronfa Gasgliadau. Yn y fan yma, nododd Liz Siberry ei bod newydd dderbyn y rhifyn diweddaraf o'r Cylchlythyr Casgliadau, ac roedd yn canmol ei gynnwys a'i ddiwyg yn fawr.

Nodwyd y bydd y gwaith cyfalaf ar yr adeilad yn effeithio ar allu'r Llyfrgell i gyrraedd rhai targedau'r flwyddyn nesaf, a bod rhaid bod yn realistig. Cytunodd Linda i egluro targedau adrannau unigol i'r Ymddiriedolwyr yn dilyn y cyfarfod.

Cytunwyd y dylid trefnu sesiwn i drafod codi incwm a ffyrdd o sut y gall Ymddiriedolwyr gynorthwyo gyda'r gwaith yma. Cytunodd Richard Houdmont i gadeirio'r Grŵp a nododd Yr Arglwydd Aberdâr y byddai yntau'n hapus i ymuno â'r grŵp. Bydd y Clerc yn cylchredeg dyddiadau posib a gwahoddiad i ymuno â'r grŵp yma yn dilyn y cyfarfod heddiw.

Adran 3 Gwybodaeth a Diweddariadau

3.1 Y Gen Gorffennaf – Medi 2018

Ni chafwyd unrhyw sylwadau na chwestiynau ynglŷn â chynnwys Y Gen, a diolchodd Linda i Carys Evans am ei ddylunio.

3.2 Rhaglen Hyfforddi'r Ymddiriedolwyr 2018 – 2019

Mae rhaglen hyfforddiant wedi ei pharatoi yn seiliedig ar sylwadau a wnaed yng ngwerthusiadau blynyddol yr Ymddiriedolwyr. Cymeradwywyd y rhaglen ac mi fydd Clerc y Bwrdd yn bwrw ymlaen i ddechrau trefnu hyfforddiant yn y flwyddyn newydd.

3.3 Defnydd o Sêl y Llyfrgell

Mae Rheoliadau'r Llyfrgell yn nodi fod angen adrodd ar ddefnydd o sêl y Llyfrgell i'r Ymddiriedolwyr, felly gofynnir i'r Ymddiriedolwyr nodi fod y sêl wedi ei ddefnyddio ar weithred newid i apwyntio a thynnu Ymddiriedolwyr ar gyfer cynllun pensiwn staff y Llyfrgell ar 11 Hydref 2018.

Adran 4 Materion Ariannol

4.1 Cyfrifon Rheoli hyd at ddiwedd Hydref 2018

Cyflwynwyd y cyfrifon gan David Michael, a thynnodd sylw at y diffyg o rhwng £150k - £200k a ragwelir ar gyfer 2018/19 yn seiliedig ar y canlyniadau hyd yma. Bydd y gorwariant yma'n mynd yn erbyn y £600k sydd yn y cronfeydd cyhoeddus anghyfyngedig. Amlygwyd hefyd y ffaith na fydd modd cyrraedd y targed o £700k ar gyfer incwm masnachol eleni.

Nid oedd unrhyw sylwadau na chwestiynau gan yr Ymddiriedolwyr ynglŷn â'r cyfrifon.

4.2. Cofrestr Risg Corfforaethol

Mae'r Gofrestr wedi ei diwygio'n gyfan gwbl yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg ar 26 Hydref. Ni chafwyd unrhyw sylwadau na chwestiynau gan yr Ymddiriedolwyr.

4.2.1 Cofrestr Risg yr Archif Ddarlledu

Yn dilyn y datganiad o dan Eitem 2.1, nid oes angen trafod yr eitem yma bellach.

Adran 5 Adroddiadau o Bwyllgorau

5.1 Cofnodion Drafft Pwyllgor Llywodraethiant a Pherfformiad a gyfarfu ar 07.09.18

Amlygwyd y canlynol gan gadeirydd y Pwyllgor, Susan Davies.

Roedd y Pwyllgor yn teimlo y byddai'n fuddiol cynnal adolygiad annibynnol o effeithiolrwydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr bob tair/pedair blynedd gan rywun profiadol yn y maes; gall hyn gael ei gynnwys yng nghynllun gwaith y Pwyllgor am y flwyddyn nesaf.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 - nododd David Michael nad oes eglurder ynglŷn ag adrodd ar gyflawniad.

Cyflawni gyda'n Gilydd - Cryfhau Noddi Llywodraeth Cymru o Gyrff Hyd-braich - nid oedd unrhyw gynnydd wedi bod ar hyn adeg cynnal y cyfarfod, ac roedd hyn yn arafu'r gwaith o adolygu'r Ddogfen Fframwaith.

5.2 Cofnodion Drafft Grŵp Tasg a Gorffen Addysg ar ôl 16 oed a gyfarfu ar 13.09.18

Nododd y Cadeirydd, Dyfrig Jones, ei fod wedi adrodd ar lafar ar drafodion y cyfarfod yng nghyfarfod y Bwrdd ar 21 Medi ac nad oedd dim byd pellach ganddo i'w ychwanegu gan fod y cyfarfod oedd i'w gynnal ar 8 Tachwedd wedi ei ohirio.

5.3 Cofnodion Drafft Cyfarfod Arbennig Pwyllgor Archwilio a Risg a gyfarfu ar 19.09.18

5.6 Cofnodion Drafft Pwyllgor Archwilio a Risg a gyfarfu ar 26.10.18

Nid oedd gan y Cadeirydd, Hugh Thomas, unrhyw beth i'w ychwanegu i'r cofnodion oedd yn cael eu cyflwyno i gyfarfod y Bwrdd.

5.4 Cofnodion Drafft Panel Ymgynghorol Adeiladau a gyfarfu ar 20.09.18

Nid oedd gan y Cadeirydd, Liz Siberry, unrhyw beth i'w ychwanegu i'r cofnodion. Mi fydd cyfarfod nesaf y Panel ar 12 Rhagfyr 2018.

5.5 Cofnodion Drafft Pwyllgor Cynllunio Ariannol a gyfarfu ar 05.10.18

Tynnodd y Cadeirydd, Lee Yale-Helms, sylw'r Ymddiriedolwyr at y canlynol;

Mae'r senario ar gyfer blaengynllunio ariannol wedi ei ymestyn o 3 mlynedd i 5 mlynedd.

Nodwyd hefyd fod y Pwyllgor wedi cytuno i ganiatáu cyllid o gronfeydd preifat y Llyfrgell, a chymynrodd Geoff Powell yn arbennig, i ariannu ysgoloriaethau PhD Prifysgol Bangor.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chyfleoedd masnachol yn deillio o ddigido Llyfr Coch Hergest, nodwyd nad oedd cynlluniau pendant mewn lle a bod angen trafod hyn ymhellach.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r cynllun pensiwn, cafwyd sicrwydd gan David Michael fod buddsoddiadau pensiwn yn perfformio'n foddhaol, ac nad oes diffyg hanesyddol yn debygol o fodoli ym mis Mawrth 2019 ond mae cost o wasanaeth at y dyfodol yn debygol o godi.

Cyn gorffen, nododd y Llywydd ei fod wedi mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Risg ar 19.09.18 a'r Pwyllgor Cynllunio Ariannol ar 05.10.18 ac roedd am ddiolch i'r swyddogion am eu gwaith trwyadl. Mae'r Llyfrgell yn y broses o gynllunio cynllun ariannol cryf iawn, ac mae'r swyddogion i'w canmol am gyflawni gwaith trylwyr ar hyn.

Adran 6 Materion y Llyfrgellydd

6.1 Digwyddiad yn Llundain 2019

Cafwyd diweddariad gan Pedr ap Llwyd, a diolchodd i'r Arglwydd Aberdâr am y gwahoddiad i Dŷ'r Arglwyddi. Bydd gan y Llyfrgell bresenoldeb hefyd yn yr Emporiwm yn ystod Wythnos Cymru

Llundain. Mi fydd y digwyddiad yn Nhŷ'r Arglwyddi yn cymryd lle ar 5 Fawrth 2019 rhwng 6.00 - 8.00 yr hwyr, a dylid cysylltu gyda Clerc y Bwrdd os oedd gan unrhyw un o'r Ymddiriedolwyr ddiddordeb i fynychu. Dylai'r Ymddiriedolwyr hefyd anfon unrhyw enwau posib i'w gwahodd at y Clerc i'w cynnwys ar y rhestr.

Aeth Pedr ymlaen i egluro nad oedd cynllun Y Lle Hanes ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol bellach yn foddhaol, ac mae'r Llyfrgell am gynnig cynllun amgen i'r partneriaid. Nododd y Llywydd ei fod yntau wedi derbyn nifer o gwynion am bresenoldeb y Llyfrgell yn Y Lle Hanes, ac felly roedd yr Ymddiriedolwyr yn hapus i gefnogi awgrym y Llyfrgell i gynnal trafodaethau gyda'r partneriaid ynglŷn â chynllun amgen, ond i beidio â chau'r drws o orfod mynd ar ben ein hunain petai angen gwneud hynny. Roedd Hugh Thomas eisoes wedi awgrymu wrth Linda Tomos y dylid gwahodd Prif Weithredwr newydd yr Eisteddfod, Betsan Moses, i'r Llyfrgell a diolchodd Linda i Hugh am yr awgrym. Yn y fan yma, datganodd Hugh Thomas fudd fel aelod o fwrdd yr Eisteddfod.

Awgrymwyd y medrai'r Llyfrgell hefyd amlygu ei gwaith trwy bresenoldeb yng Ngŵyl y Gelli a gofyn i Ganolfan Cymru Llundain os medrwn ni arddangos eitemau o'r casgliadau yno.

6.2 Adroddiad Brexit

Cyflwynir yr adroddiad yma er gwybodaeth i ddangos y gwaith paratoadol mae'r Llyfrgell yn ei wneud yn sgil dyfodiad Brexit. Mae'r Llyfrgell hefyd yn cadw mewn cysylltiad gyda chyrrff eraill yng Nghymru a thu hwnt yn enwedig ble mae buddion a/neu ddiddordebau ar y cyd. Diolchwyd i'r Tîm Gweithredol am adroddiad cynhwysfawr ar draws holl feysydd gwaith y Llyfrgell. Bydd diweddariad pellach yn cael ei roi i'r Bwrdd ym mis Chwefror 2019.

6.3 Cyflawni gyda'n Gilydd: Cryfhau Noddi Llywodraeth Cymru o Gyrrff Hyd-braich

Gwnaeth Julia Douch ymweld â'r Llyfrgell ar 15 Tachwedd ac mae Linda Tomos yn aros am lythyr ganddi yn crynhoi'r trafodaethau; bydd hwn yn cael ei roi ar safle'r Ymddiriedolwyr.

Soniodd Julia am sustem noddi "light touch" gyda chydabyddiaeth gan Lywodraeth Cymru fod y Llyfrgell yn gyfrifol am reoli ei arian ei hun; byddai hyn yn gwneud i ffwrdd â'r drefn bresennol ble mae rhaid cael caniatâd y Gweinidog am wariant, ac mae lleihau'r fiwrocratiaeth yma i'w groesawu. Serch hynny, mae'n bwysig bod unrhyw berthynas noddi at y dyfodol yn adnabod a chydabod meysydd gwaith y Llyfrgell, a diolchodd Linda i Peter Owen a Mary Ellis am y berthynas dda sy'n bodoli ar hyn o bryd rhwng y Llyfrgell a'r corff noddi.

Adran 7 Materion y Llywydd

7.1 Apwyntiadau i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr – diweddariad

Yn anffodus, mae'r amserlen oedd wedi ei threfnu ar gyfer yr apwyntiadau wedi llithro unwaith yn rhagor. Mi fydd y broses nawr yn cychwyn w/c 26 Tachwedd ac yn rhedeg tan ddiwedd y flwyddyn, gyda chyfweliadau yn ystod mis Mawrth. Mynegodd y Llywydd nad oedd hyn yn dderbyniol o gwbl, gan ei bod bron yn dair blynedd ers i'r Is Lywydd adael. Mae diffyg penodi Ymddiriedolwyr hefyd yn golygu ei bod yn anodd cael cworwm mewn cyfarfodydd pwyllgor. Roedd y Llywydd am bwysleisio

serch hynny mai penodiadau'r Llywodraeth yw pob un o'r bylchau presennol ac mai nhw sydd yn gyfrifol am yr oedi i benodi.

7.2 Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Mi fydd y Pwyllgor yn cyfarfod yng Nghanolfan y Celfyddydau yn Aberystwyth ar 6 Rhagfyr, ac mi fydd y Llywydd a'r Llyfrgellydd yn ymddangos o flaen y Pwyllgor am 10.00 y bore hwnnw. Yn dilyn y cyfarfod mi fydd rhai o aelodau'r pwyllgor yn ymweld â'r Llyfrgell i gael taith o gwmpas yr arddangosfa *Tra Môr yn Fur : Cymru a'r Môr*, ac yn cael cyflwyniad gan Maredudd ap Huw i rai o drysorau'r Llyfrgell.

7.3 9fed Fforwm Rhyngwladol Llyfrgell Shanghai

Adroddodd y Llywydd fod yr ymweliad â Llyfrgell Shanghai wedi bod yn llwyddiant, a diolchodd i Douglas Jones am ei gymorth yn ystod yr ymweliad. Mi fydd Doug yn parhau i drafod gyda Llyfrgell Shanghai sut i ddatblygu'r berthynas, ac mi fydd adroddiad yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf.

7.4 Eisteddfod Genedlaethol 2020

Mae'n bleser medru cadarnhau y bydd y Llyfrgell yn cyflwyno'r Fedal Ryddiaith yn yr Eisteddfod yn 2020. Mi fydd Swyddfa'r Eisteddfod yn cysylltu gyda'r Llyfrgell yn nes at yr amser i wneud trefniadau pellach.

Mae Pedr ap Llwyd a Carol Edwards yn aelodau o'r Pwyllgor Apêl Codi Arian Lleol tuag at yr Eisteddfod, ac mae'r pwyllgor yn awyddus i lwyfannu gweithgareddau yn y Llyfrgell i godi arian tuag at yr Eisteddfod. Rhai syniadau a grybwyllwyd yw garddwest, bore coffi, te prynhawn a sgwrs gyda rhywun adnabyddus. Nododd yr Ymddiriedolwyr eu cefnogaeth ac nid oedd gwrthwynebiad i gynnal gweithgareddau yn y Llyfrgell i godi arian tuag at yr Eisteddfod.

Adran 8 Unrhyw fater arall

Diolch

Dyma gyfarfod olaf Dr Susan Davies fel Ymddiriedolwr, a diolchodd y Llywydd iddi am ei gwasanaeth. Mae'r Bwrdd a'r Llyfrgell wedi elwa yn fawr o brofiad a gwybodaeth Susan mewn nifer o feysydd dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae'n dyled yn fawr iddi. Mae'n ymroddgar ac yn gefnogol iawn i holl agweddau o waith y Llyfrgell, ac mae hynny wedi ei amlygu yn y pwyllgorau mae hi wedi ymwneud â hwy yn ystod ei thymor - Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethiant a Pherfformiad, Cadeirydd Panel Arbenigol yr Archif Ddarlledu, aelod o'r grŵp Tasg a Gorffen Addysg ar ôl 16 oed, aelod o'r Is Grŵp Marchnata, ac yn ddiweddar fel aelod o'r Pwyllgor Cynllunio Ariannol. Tu hwnt i'w gwaith ar bwyllgorau, mi roedd Susan hefyd yn cynnig ei harbenigedd a'i gwybodaeth mewn amryw o feysydd eraill i staff y Llyfrgell, a gall neb ddadlau nad yw Susan wedi rhoi 100% i'r Llyfrgell yn ystod ei chyfnod fel Ymddiriedolwr, a bydd y Bwrdd a'r Llyfrgell yn gweld ei heisiau'n fawr.

Ategodd Linda sylwadau'r Llywydd ar ran y Tîm Gweithredol gan ddiolch i Susan am fod bob amser mor barod i wirfoddoli ei hamser a'i harbenigedd i'r Tîm Gweithredol.

Noson Siopa Nadolig

Atgoffir yr Ymddiriedolwyr y bydd noson siopa Nadolig hwyr y Llyfrgell yn cael ei gynnal ar 6 Rhagfyr, ac mae croeso mawr i bawb.

**** DIWEDD ****